# ADRODDIAD GWERTHUSO

# Gŵyl Fach y Fro 2017



MENTER IAITH BRO MORGANNWG

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

CYMRAEG

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

menterbromorgannwg.cymru

# Cynnwys


**Cyflwyniad**
1.1 Hanes yr ŵyl
1.2 Nodau'r ŵyl
1.3 Presenoldeb yn yr ŵyl
1.4 Partneriaid
1.5 Ariannwyr
1.6 Gŵyl Fach y Fro 2017
1.7 Marchnata a'r Cyfryngau

**Y Gwerthusiad**
2.1 Nodau'r Gwerthusiad
2.2 Methodoleg
2.3 Canlyniadau a Sylwadau

**Crynodeb a'r Ffordd Ymlaen**


"DIOLCH YN FAWR IAWN AM YR YMRODDIAD I DDARPARU GŴYL MOR LLIWGAR A DENIADOL I DRIGOLION BRO MORGANNWG. O GANLYNIAD I ARLWY DDA ELENI FE DDENWYD POBOL O DU ALLAN I'R FRO FWYFWY ELENI. YMLAEN!"



"LLONGYFARCHIADAU I STAFF Y FENTER AM DREFNU DIWRNOD ARDDERCHOG."

"THE KIDS THINGS – CIRCUS SKILLS, ARTS AND CRAFTS ETC – WERE PARTICULARLY GOOD THIS YEAR"

# Cyflwyniad

## 1.1 Hanes yr ŵyl

Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl flynyddol a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r ŵyl wedi ei lleoli ar Bromenâd Ynys y Barri ac mae'n rhan o becyn digwyddiadau haf y Cyngor.

Yn 2017 y prif nod oedd adeiladu ar lwyddiant yr ŵyl gan ddarparu mwy o weithgareddau i greu naws gŵyl chadw pobl o gwmpas ardal yr ŵyl trwy'r prynhawn.

## 1.2 Nodau'r ŵyl

Nodau'r ŵyl ydy:

1. Codi proffil y Gymraeg ym Mro Morgannwg trwy roi cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion flasu ychydig o'r iaith a chelfyddydau Gymraeg yn y Fro.
2. Cyflwyno syniadau a materion Cymraeg mewn amgylchedd hwyliog a phleserus.
3. Creu cyfleoedd i'r cyhoedd gael hyder yn y Gymraeg a chael mynediad at yr iaith.
4. Targedu gwahanol gynulleidfaoedd ar wahân, a'r gweithgareddau yn hygyrch i bob grŵp. Dylai oedolion yn arbennig weld yr ŵyl yn ddigon soffistigedig iddyn nhw, tra'n hwyl i blant hefyd.
5. Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau i blant a phobl ifanc Cymraeg a chynyddu eu hymwybyddiaeth a'u gwerth o'r iaith.
6. Cryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned.
7. Cynyddu a gwella gwasanaethau i ddinasyddion Cymraeg.
8. Cael ei hystyried yn ŵyl o ansawdd uchel.

## 1.3 Presenoldeb yn yr ŵyl

Mynychodd dros 6,500 o bobl Gŵyl Fach y Fro 2017 – cynnydd o dros 100% o'i gymharu â'r 3,200 o bobl a fynychodd yn 2016. Y targed ar gyfer eleni oedd 4,000 felly roedd y ffigyrau tipyn yn fwy na'r disgwyl.

## 1.4 Partneriaid

Mae Gŵyl Fach y Fro yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mae'n darparu platfform i'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Rydym yn ymfalchio yn y ffaith bod cymaint o'r partneriaid yn cyd-weithio a chyfrannu tuag at y digwyddiad, ac yn cymryd rhan yn yr ŵyl eleni roedd:

Adran Chwaraeon yr Urdd, Dysgu Cymraeg y Fro, Adran Addysg Cyngor Bro Morgannwg, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Green City Events, Pedal Emporium, Cyfweithfa Gelf Caerdydd, Mewn Cymeriad ac Ysgolion Cymraeg y Sir.

## 1.5 Ariannwyr

Llwyddodd Gŵyl Fach y Fro 2017 i ddenu cyfanswm o £11,990 mewn grantiau, o'i gymharu â £10,000 y llynedd, cynnydd o 20%. Cafodd yr ŵyl ei chefnogi eleni gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa'r Loteri Fawr.

Rydym hefyd yn derbyn incwm wrth stondinwyr ac arlwywyr yr ŵyl.

**"ROEDD YN GRET GWELD CYMAINT O BOBL YNO O BOB OEDRAN YN MWYNHAU CERDDORIAETH CYMRAEG GYDA'I GILYDD A CHYMDEITHASU A MWYNHAU YN Y GYMRAEG, MEWN ARDAL SYDD EFALLAI'N EITHAF DI-GYMRAEG ER MWYN HYBU CYMREICTOD AC YMWYBYDDIAETH O'R GYMRAEG YN Y BARRI AC YNG NGHYMRU."**



**“MOR WYCH I GAEL DIGWYDDIAD HOLLOL GYMRAEG YN Y BARRI. BANDIAU CYMRAEG YN DANGOS FOD Y GYMRAEG YN CWL!”**



## 1.6 Gŵyl Fach y Fro 2017

Roeddwn yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant yr ŵyl y llynedd a’i datblygu ymhellach yn 2017. Dyma’r uchafbwyntiau:

- Cynnydd sylweddol yn y nifer o weithgareddau, gyda 40 o berfformiadau a gweithdai unigol yn rhan o’r ŵyl.
- Arlwy cerddorol amrywiol iawn wnaeth lwyddo i apelio at ystod eang o gynulleidfa – o fandiau pop, roc, indie, gwerin, jazz, electronig a phres.
- Am y tro cyntaf eleni cafwyd Ardal Chwarae i blant; oedd yn cynnwys ardal grefft, gweithgareddau swigod, beiciau bybls a disgo, sgiliau syrcas, gemau parasiwt a wal ddringo. Fe wnaethom hefyd gydweithio gyda Green City Events am y tro cyntaf i ddarparu rhaglen gwych o weithdai yn cynnwys Creu Penwisg, Celf Clai a Blodau Papur – roedd rhain yn ychwanegiadau poblogaidd tu hwnt.
- Cydweithio gyda busnesau a chynhyrchwyr lleol i gynnig amrywiaeth o fwyd a diod. Yn arlwyo’r ŵyl eleni roedd Ffwrnes Pizza, Grazing Shed, Bay 5 Coffee a Bragdy Tomos a Lilford – a phob un wedi gwerthu allan erbyn diwedd y prynhawn!
- Roedd y stondinau crefft yn ychwanegiad poblogaidd i’r ŵyl yn 2016, ac roeddwn yn falch i allu cynyddu ar y nifer o stondinau eleni. Dyma restr o stondinwyr Gŵyl Fach y Fro 2017: Cyfarchion, Draenog, Katherine Jones, Haden Fach, Gweni, Tamaid Bach, Michael Goode, Bethan Cuddihy, Nia Clements, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a Dysgu Cymraeg y Fro.
- Diolch i grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, cafwyd elfennau drama a theatr yn rhan o’r arlwy artistig, gyda sioe newydd “Iolo Morganwg” gan Mewn Cymeriad yn cael ei berfformio am y tro cyntaf ar lwyfan yr ŵyl.
- Roedd 12 o wirfoddolwyr yn cynorthwyo yn ystod y diwrnod, ac roeddent yn gyswllt hollbwysig o ran cyfeirio pobl a chodi ymwybyddiaeth bellach trwy rannu gwybodaeth am yr ŵyl gyda’r cyhoedd ar hyd y promenâd.
- Llwyddwyd i ddenu llawer mwy o ymwelwyr a phobl o tu allan i Fro Morgannwg i fwynhau’r ŵyl ar Ynys y Barri.

## 1.7 Marchnata a’r Cyfryngau

Cafodd yr ŵyl tipyn o ymateb ar-lein a sylw yn y cyfryngau.

- Gofynnwyd i’r rhai a holwyd sut roedden nhw wedi clywed am yr ŵyl, a’r atebion mwyaf poblogaidd oedd Facebook (40%) a Gwefan y Fenter (38%), sy’n amlygu pwysigrwydd cynnal presenoldeb ar-lein cryf.
- Cafwyd tipyn o sylw yn y cyfryngau: cyfweliad byw ar Heno, sgwrs ar Radio Wales, sylw ar amryw o raglenni Radio Cymru ac eitemau yn y wasg leol gan gynnwys Buzz Magazine, Y Selar, Glamorgan GEM a’r Barry & District News.
- Mae’r ŵyl hefyd yn elwa o gael ei hyrwyddo yn rhan o raglen digwyddiadau haf y Cyngor, sy’n cyrraedd cynulleidfaoedd mawr tu hwnt i gysylltiadau arferol y Fenter.

# Y Gwerthusiad

## 2.1 Nodau'r Gwerthusiad

Nôd y gwerthusiad ydy casglu gwybodaeth am yr agweddau canlynol o'r ŵyl:

1. Wnaeth yr ŵyl gwrdd â'i hamcanion?
2. Beth oedd argraffiadau a phrofiadau mynychwyr o'r ŵyl?
3. Beth oedd effaith yr ŵyl ar y cyfranogwyr?
4. Sut byddai modd gwella ar y digwyddiad?

## 2.2 Methodoleg

Casglwyd data gan dîm o staff y Fenter a gwirfoddolwyr yn ystod y diwrnod. Casglodd y tîm gwerthuso sampl o'r gynulleidfa oedd yn mynychu'r ŵyl er mwyn casglu ymatebion a sylwadau.

Crewyd hefyd holiadur ar-lein a ddosbarthwyd i'r cyhoedd trwy nifer o rwydweithiau ar-lein; tudalennau Facebook a Twitter y Fenter, a thrwy ein system e-chlysur sy'n cyrraedd dros 1,200 o drigolion lleol. Danfonwyd linc i'r holiadur at holl stondinwyr, partneriaid ac arlwywyr yr ŵyl er mwyn casglu adborth wrthyn nhw hefyd.

Casglwyd 78 o ymatebion trwy'r dulliau yma.

## 2.3 Canlyniadau a Sylwadau

Yn ôl yr holiadur, roedd 5% o fynychwyr yr ŵyl dan 25 oed, 34% rhwng 25-40 oed, 49% rhwng 40-60 oed a 12% dros 60 oed.

Rhaid cofio wrth gwrs nad yw plant yn cymryd rhan yn yr arolwg hwn, ac yn arsylwadol rydym yn amcangyfrif bod 1/3 o'r mynychwyr yn blant.

Mae canlyniadau'r holiadur yn dangos bod Gŵyl Fach y Fro yn gynhwysol ac yn llwyddo i apelio at y di-Gymraeg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg, gyda 75% yn ateb eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Atebodd 99% eu bod yn teimlo bod Gŵyl Fach y Fro yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg yn y Fro.

Mae'r lleoliad unigryw hwn ar Bromenâd Ynys y Barri yn amlwg yn plesio – gyda 97% yn teimlo bod y lleoliad yn addas iawn ar gyfer yr ŵyl.

Gofynnwyd hefyd beth roedd pobl wedi ei fwynhau orau am Gŵyl Fach y Fro eleni. Ymysg agweddau mwyaf poblogaidd yr ŵyl yn ôl yr ymatebion oedd y gerddoriaeth byw safonol, y cyfle i weld plant lleol yn perfformio, y cyfle i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, gweithgareddau i blant, yr awyrgylch hamddenol a chroesawgar, ac wrth gwrs y tywydd!

Atebodd 99% y bydden nhw'n debygol o ddod i Gŵyl Fach y Fro eto.



**"TEIMLAD ARBENNIG GWELD FY MHLANT, SYDD YN EU HARDDEGAU, YN MWYNHAU CYMAINT Â NI!"**

**"LIVELY, FRIENDLY, INCLUSIVE, FESTIVE ATMOSPHERE"**

# Crynodeb a'r Ffordd Ymlaen

Gŵyl Fach y Fro 2017 oedd yr un mwyaf llwyddiannus eto, ac rydym fel trefnwyr yn falch i weld yr ŵyl yn datblygu a'n parhau i fynd o nerth i nerth. Llwyddwyd i ddenu cynulleidfa tipyn mwy na'r disgwyl, gyda dros 6,500 yn mynychu eleni, cynnydd o dros 100% o'r flwyddyn flaenorol.

Erbyn hyn rydym yn denu £11,990 o gyllid i ariannu Gŵyl Fach y Fro, cynnydd o 20% ar incwm i'w gymharu â llynedd.

Er mwyn parhau i dyfu a datblygu Gŵyl Fach y Fro, ymateb i argymhellion ein cwsmeriaid, sicrhau ei fod yn ŵyl sydd yn gynhwysol a sy'n apelio at gynulleidfa ehangach, byddwn yn ystyried y ffactorau islaw ar gyfer y dyfodol:

- Parhau i gydweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg er mwyn cadw'r ŵyl yn y lleoliad arbennig ac unigryw hwn ar Ynys y Barri.
- Cadw'r ŵyl am ddim gan sicrhau incwm sylweddol er mwyn gallu parhau â hyn. Erbyn blwyddyn nesaf byddwn yn edrych i ddenu nawdd preifat er mwyn sicrhau incwm ychwanegol a meithrin cysylltiadau newydd gyda chwmniau a busnesau lleol.
- Cadw ansawdd uchel y stondinau bwyd a diod. Erbyn blwyddyn nesaf bydd angen sicrhau bod gan bawb ddigon o stoc ar gyfer y diwrnod cyfan neu gael 1 neu 2 stondin bwyd ychwanegol er mwyn cynnig mwy o opsiynau a gwasanaethu'r torfeydd cynyddol.
- Ehangu ar oriau'r ŵyl ychydig er mwyn hwyluso rhediad y llwyfan berfformio, a mwy o amser i'r DJ's rhwng pob perfformiad.
- Cydweithio gyda S4C er mwyn darparu sioe neu sesiynau Cyw fydd yn apelio at fabanod a phlant ifanc.
- Mwy o berfformiadau ac elfennau theatr stryd ar hyd y promenâd.
- Mwy byth o faneri a deunydd hyrwyddo ar hyd y promenâd, yn y meysydd parcio a'r strydoedd cyfagos er mwyn codi ymwybyddiaeth pellach o'r digwyddiad ymysg pobl lleol ac ymwelwyr i'r traeth.

**"DIOLCH YN FAWR IAWN AM ŴYL FENDIGEDIG ELENI ETO! BETH YW DYDDIAD YR UN Y FLWYDDYN NESAF I NI CAEL BWCIO Y CYTIAU TRAETH YN BAROD!"**




**"PERFFORMIADAU AC AWYRGYLCH GWYCH!"**